

# Y dyfodol ar ôl 'gwrth chwyldro Mandela'?

**Bu'r Athro Gareth Wyn Jones yn ymweld â De Affrica droeon wedi i Nelson Mandela ddod yn Arlywydd, gan weithio ar brosiect i wella amodau bywyd cymunedol mewn ffordd gynaliadwy ...**

CAFODD y darlithydd Einir Young o Brifysgol Bangor a minnau'r fraint dros gyfnod o ddegawd bron o arwain un o brosiectau'r Undeb Ewropeaidd yng ngwledydd De Affrica.

Amcan y gwaith, mewn partneriaeth â chyfeillion o Sbaen, Norwy a'r Alban ac yn bennaf y gwledydd rhanbarthol, oedd ceisio deall a gwella amodau bywyd mewn tair cymuned wledig, a hynny mewn ffordd gynaliadwy.

Roedd y tair cymuned ar diroedd comin diarffordd - Ha Lajone ym mynyddoedd uchel y Maloti yn Lesotho, yr ail yng nghanol y Kalahari yn Botswana a'r drydedd yn Namaqualand yn Ne Affrica. Roedd Paulshoek, y pentref lle roeddem yn gweithio, yn llawer nes at ffin Namibia nag i Cape Town.

Yn haf 1995 cefais fy ngwahodd i Affrica i ddatblygu'r prosiect; flwyddyn ar ôl ethol Nelson Mandela yn Arlywydd y wlad newydd rydd. Ar y pryd roedd creithiau apartheid yn dal yn amlwg iawn nid yn unig ar Dde Africa ond ar Botswana a Lesotho.

Roedd cymuned Paulshoek yn adlewyrchu agweddau brwnt yr hen drefn. Disgynyddion cyfathrach rhwng pobol Affrican, y Boers, a'r brodorion KhoiKhoi-San oedd yn byw yno. Pan gyrhaeddodd yr Is-Almaenwr, Jan van Riebeeck a'i fintai'r 'Cape' yn 1665, llwythau'r San oedd yn crwydro'r holl diroedd o ddiffeithwch y Kalahari i fôr y de. Fesul dipyn, dros y canrifoedd meddiannwyd eu tiroedd gan y Boers ond, fel yn Paulshoek, crëwyd rhai hafanau neu randiroedd ar gyfer disgynyddion y San o gwmpas sefydliadau Cristnogol. Rhandiroedd ar y tiroedd gwaethaf wrth gwrs. Felly, crafu byw oddi ar dir sâ, gweithio i'r Affricaners, neu dderbyn taliadau gan aelodau'r teulu oedd yn byw yn y trefi mawr neu'n gweithio yn y mwyngloddiau, oedd eu ffawd.

## IAITH FRODOROL WEDI DIFLANNU

Anodd i ni yng Nghymru ddychmygu lle mor anial, mynyddig a chreigiog; dim ond 200 i 250 milimetr o law'r flwyddyn; y tymheredd yn amrywio o 30°C yn ystod y dydd i fod yn rhewi yn ystod y nos a'r gwynt yn brathu. Prin i mi gofio bod yn oerach erioed.

Siaradai'r bobol Africans a'u hiaith frodorol wedi diflannu. Nid oedd y mwyafrif yn edrych o'r un pryd a gwedd â'r hyn ystyrir yn Affricaniaid traddodiadol. Mae'n werth cofio i'r llwythau Bantu fudo i dde Affrica o'r gogledd a'r dwyrain yn lled ddiweddar. Roedd trigolion Paulshoek yn ansicr o effaith llywodraeth ANC a'r mwyafrif 'du'.

Does ond gobeithio i'r prosiect helpu rhywfaint ond mae'n dwyn llw o atgofion i'r cof:

Y cyfeillgarwch ymysg ein cydweithwyr o ddeg gwlad.

Methu'n lan â deall pam nad oedd pobol Paulshoek yn adeiladu gyda'r holl gerrig oedd o'u cwmpas cyn sylweddoli mai pobol grwydrol oedden nhw dros y canrifoedd, yn wir dros filoedd o flynyddoedd tan iddynt gael eu corlannu yn eu rhandiroedd.

Rhyfeddu at y gwahaniaeth rhwng y llystyfiant yn y rhanbarth a'r tyfiant dros y ffens yn y fferm Africans cyfagos.

Sylweddoli byddai llawer o'r tîm oedd yn gweithio gyda ni wedi cael eu dosbarthu a'u rheoli fel '*Cape Coloured*' ychydig o flynyddoedd yng nghynt.

Ymweld ag Ynys Robben. Cael ein tywys i weld cell Mandela. Sylweddoli mai carchar Prydeinig, Imperialaidd a gafodd ei ddatblygu yno yn wreiddiol i 'ni' garcharu'r Boers.

Ymweld ag Ashia Peterson yn Mitchell's Plain, un o'r treflannau mwyaf, a chanddi enw drwg dros ben. Cael croeso a chwts gan Ashia, oedd yn gwisgo ei phenwisg Fwslimaidd liwgar, a gan ei theulu - er nad oedd pethau'n fêl i gyd gan fod ei brawd yn aelod o un o'r 'gangiau' cyffuriau lleol. Enillodd Ashia Ysgoloriaeth Mandela i astudio ym Mangor gydag Einir Young, a gwnaeth yn fawr o'i chyfle.

## TAFARN HEB WYNEB DU AR GYFYL Y LLE

Ymweld ac aros yn stadau a thai 'caerog' y cyfoethog.

Codi taci ger Gerddi Kirstenbosch a tharo sgwrs. Holi sut oedd busnes - 'go lew' - ond ychwanegwyd gyda'i gwên befrig, 'ond rwy'n rhydd!'

Ymweld â thafarn rhwng y dre a'r penrhyn ei hun. Dim wyneb du ar gyfyl y lle, pawb ag acenion Llundain a gêm bêl-droed rhwng West Ham a rhywun ar glamp o deledu.

Y newid mewn degawd? Yn 1995 prin oedd y wynebau duon yn y canolfannau siopa crand yn Newlands. Erbyn 2005, yn yr un ganolfan roedd llawer mwy o bobol ddu hynod smart, llewyrchus, er bod tlodi yn parhau yn y treflannau.

Ymweld â Paulshoek ar ôl sychder; y defaid mor llesg fel y gallwn yn hawdd rhoi fy llaw estron ar eu pennau heb iddynt symud. Bu farw bron i hanner y ddiadell y flwyddyn honno. Modelau newid hinsawdd yn rhagweld lleihad yng nglawiad yn Paulshoek dros y degawd nesaf!

Be ddaw ohonynt er gwrth chwyldro tawel Mandela? Gochelwn rhag taseilio pobol mewn ffyrdd eraill.